


# EICH

# TAITH



AT DDOD YN BAROD  
AR GYFER YR ARHOLIADAU

## CROESO I TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT



Bydd y consortiwm City & Guilds/CBAC TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau manwl i chi am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol y rhychwant oes o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Mae'r cyfle gennych i feithrin eich dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddwch hefyd yn meithrin dealltwriaeth fanwl o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosïynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain. Byddwch yn ennill dealltwriaeth drylwyr o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

## CYNLLUNIO YMLAEN...

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru sy'n foesebol a chynaliadwy. Hybu dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i chi ymchwilio i faterion a thestunau gofal o'ch dewis eich hunain. Byddwch yn dilyn astudiaeth eang o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel UG ac mae dewis llwybr ar lefel U2 yn rhoi cyfle i chi ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth naill ai mewn gofal plant neu iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

**Drwy astudio iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, byddwch yn gallu dangos eich bod:**

- yn deall y materion moesebol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- yn deall y dulliau plentyn-ganolog neu berson-ganolog o ofalu
- yn gallu dehongli a gwerthuso damcaniaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a myfyrio ar sut maen nhw'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau
- yn gallu nodi'r ffactorau cymdeithasebol, seicolegol a biolegol sy'n cyfrannu at iechyd da, ac esbonio rôl llywodraeth a gweithwyr proffesiynol wrth hyrwyddo a chynnal iechyd da

- yn gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Mae'n cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, neu i gyflogaeth. Gallwch hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Nid yw'r fanyleb yn benodol ar gyfer unrhyw oedran ac, o'r herwydd, mae'n rhoi cyfle i chi ymestyn eich dysgu gydol oes. Byddwch yn ennill dealltwriaeth drylwyr o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r fanyleb hon yn cynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesebol a chynaliadwy yng Nghymru, a bydd yn eich galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chyfleoedd dysgu pellach neu wneud dewisiadau gyrfaoel cysylltiedig.

# GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

## AWGRYMIADAU

**Dechreuwch feddwl am yr ymarferwyr** a'r rolau swyddi gwahanol sydd ar gael ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

**Ystyriwch faint o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol**, a gofal plant rydych chi a'ch teulu mewn cysylltiad â nhw mewn mis cyffredin. A yw'n fwy neu'n llai nag yr oeddech yn ei feddwl?

**Ystyriwch a oes amgylchedd** neu rôl benodol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yr hoffech weithio ynddyn nhw.

**Byddwch yn ymwybodol!** Gwylwch y newyddion! Mae materion iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn y newyddion bob dydd!

**Gwylwch raglenni sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol**, a gofal plant ar-lein neu ar y teledu.

**Dilynwch ymarferwr iechyd a gofal cymdeithasol** neu ofal plant ar y cyfryngau cymdeithasol.

## CANLLAWIAU LLESIANT

### **Cymerwch gamau bach.**

Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

### **Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.**

Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

### **Edrychwch ar ôl eich hun.**

Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

### **Byddwch yn bositif.**

Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

### **Cofiwch fod pawb yn wahanol.**

Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

## SUT BYDDWCH CHI'N CAEL ASESU?

Ar gyfer cymhwyster Safon Uwch, byddwch yn astudio cyfanswm o bedair uned: dwy uned UG ynghyd â'r ddwy uned U2 yn ymwneud â'r llwybr a ddewiswyd gennych: **naill ai** gofal plant **neu** iechyd a gofal cymdeithasol.

### **UG**

#### **UG Uned 1: Hybu iechyd a Llesiant**

Bydd arholiad ysgrifenedig yn yr haf pan fyddwch chi ym mlwyddyn 12.

#### **UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru**

Bydd angen i chi gwblhau tasg asesiad di-arholiad (NEA) ar sut mae iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru yn cael eu cefnogi drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

### **Safon Uwch**

Unedau 1 a 2 yn ogystal â:

#### **Llwybr Gofal Plant**

#### **U2 Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc**

Bydd arholiad ysgrifenedig yn yr haf pan fyddwch chi ym mlwyddyn 13. Mae'r arholiad mewn dwy adran; Bydd adran A yn ymwneud â deunydd sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw.

#### **U2 Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc**

Bydd angen i chi gwblhau tasg asesiad di-arholiad (NEA) lle byddwch chi'n cynhyrchu adnodd gwybodaeth i rywun sy'n cynllunio ar gyfer gyrfa yn y sector gofal plant yn y dyfodol.

#### **Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion**

#### **U2 Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion**

Bydd arholiad ysgrifenedig yn yr haf pan fyddwch chi ym mlwyddyn 13. Mae'r arholiad mewn dwy adran; Bydd adran A yn ymwneud â deunydd sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw.

#### **U2 Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch**

Bydd angen i chi gwblhau tasg asesiad di-arholiad (NEA) lle byddwch chi'n cynhyrchu adnodd gwybodaeth i rywun sy'n cynllunio ar gyfer gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn y dyfodol.